



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Casgliad o dystiolaeth ar gyfer Fframwaith sefydlu iechyd a gofal cymdeithasol Cymru gyfan

Bydd y canllaw hwn yn helpu rheolwyr, cyflogwyr a'r rhai sy'n cynorthwyo staff i gwblhau'r fframwaith.

Cyhoeddwyd gyntaf: 26 Medi 2023

Diweddariad olaf: 29 Medi 2023

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.

Ewch i <https://gofalcymdeithasol.cymru/casgliad-o-dystiolaeth-ar-gyfer-fframwaith-sefydlu-iechyd-a-gofal-cymdeithasol-cymru-gyfan> am y fersiwn diweddaraf.

Bydd y canllaw hwn yn helpu rheolwyr, cyflogwyr a'r rhai sy'n cynorthwyo staff i gwblhau'r fframwaith.

Sut all y canllaw yma helpu

Y canllaw

Bydd y canllaw hwn yn helpu rheolwyr, cyflogwyr a'r rhai sy'n cynorthwyo staff i gwblhau'r fframwaith gydag amrywiaeth o syniadau am sut y gall cynllunio gweithgareddau gwaith o ddydd i ddydd gynnig cyfleoedd i gasglu tystiolaeth hefyd.

Isod mae rhestr o senarios posibl lle gellid cael tystiolaeth yn 'naturiol' a'i defnyddio i gwblhau'r fframwaith a chymwysterau seiliedig ar ymarfer.

Nid yw'n rhestr gyflawn a byddem yn eich annog i feddwl am ffyrdd eraill i weithwyr gasglu'r dystiolaeth angenrheidiol hefyd.

Gweithlyfrau

Dangos

Mae [gweithlyfrau](#) yn rhoi syniadau i'r cyflogwr neu'r rheolwr a strwythur i gynorthwyo ei weithwyr i gwblhau'r fframwaith. Gallant fod yn ddefnyddiol hefyd os nad yw'r cyflogwr neu'r rheolwr yn gallu cynnig cyfle i gael darn penodol o dystiolaeth yn eu gweithle.

Cyfarfodydd tîm

Dangos

Gall cyfarfodydd tîm gynnig cyfle i drafod pynciau fel grŵp. Gellir defnyddio cyfranogiad a chyfraniadau gan weithwyr sy'n cwblhau'r fframwaith fel rhan o'r dystiolaeth ofynnol.

Er enghraifft:

Mewn cyfarfod tîm gellir defnyddio polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth y lleoliad i drafod:

- beth yw ystyr y termau 'cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a gwahaniaethu' (o log cynnydd 1, adran 1.4a a log cynnydd 2, adran 2.4a)
- y berthynas rhwng y defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol ac ymddygiad personol a phroffesiynol (adran 5.5a).

Cwisiau neu brofion tîm

Dangos

Gellid defnyddio cwisiau neu brofion tîm (er enghraifft, Socrative, Kahoot!) i brofi gwybodaeth staff newydd am y fframwaith ac atgoffa aelodau staff eraill amdano. Gellid eu defnyddio hefyd i weld a oes gan y gweithiwr ddigon o wybodaeth cyn cymeradwyo ar ddeilliannau dysgu penodol.

Er enghraifft:

- adran 7.6 ar Atal a rheoli heintiau.

Arsylwadau

Dangos

Arsylwi ar staff gydag unigolion neu blant a phobl ifanc a gweld sut maen nhw'n rhyngweithio a chyfathrebu. Gellid datblygu hyn yn ystod trafodaeth un-i-un, trwy oruchwylio neu mewn sesiynau adborth.

Er enghraifft:

- cymhwyso egwyddorion gweithio mewn partneriaeth a chyd-gynhyrchu yn eich gwaith ag eraill gan ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol yng nghyd-destun 'ffiniau proffesiynol' (log cynnydd 5.2b)

- nodi a defnyddio dulliau cyfathrebu amrywiol i ddiwallu anghenion a dymuniadau'r unigolyn/ion rydych yn eu cynorthwyo (log cynnydd 1.7b)
- nodi a defnyddio dulliau cyfathrebu amrywiol i ddiwallu anghenion a dymuniadau'r plant a'r bobl ifanc rydych yn eu cynorthwyo (log cynnydd 2.7b)
- cymhwyso egwyddorion gweithio mewn partneriaeth a chyd-gynhyrchu yn eich gwaith ag eraill (log cynnydd 5.2b).

Adborth

Dangos

Pan dderbynnir adborth da am weithiwr penodol gellir ei ddefnyddio fel tystiolaeth i gwblhau adrannau perthnasol o'r fframwaith. Gellir datblygu'r dystiolaeth hon ymhellach drwy drafodaeth un-i-un a chwestiynau dilynol.

Gallai'r sefydliad ddarparu mentor i gynnig cymorth uniongyrchol i'r aelod staff newydd. Gallai'r mentor ddarparu tystiolaeth hefyd i bwy bynnag sy'n gyfrifol am fonitro'r Fframwaith am sut mae'r aelod staff yn bodloni safonau.

Er enghraifft:

- cymhwyso egwyddorion gweithio mewn partneriaeth a chyd-gynhyrchu yn eich gwaith ag eraill (adran 5.2b)
- gweithredu egwyddorion Mwy na geiriau yn eich gwaith (adran 1.8b a 2.8b).

Goruchwyllo

Dangos

Gallai goruchwyllo gynnwys trafodaethau un-i-un neu sgysiau strwythuredig i helpu'r gweithiwr i gasglu tystiolaeth i gwblhau'r fframwaith. Gallai hwn fod yn bwnc trafod safonol i gefnogi gweithwyr newydd.

Er enghraifft:

- sut i weithio mewn ffyrdd sy'n meithrin ymddiriedaeth (adran 5.2a).

Cynhyrchion gwaith

Dangos

Gellid adolygu a thrafod cynhyrchion gwaith fel gwaith papur dyddiol, logiau ac arsylwadau i wirio gwybodaeth a sgiliau cyn cymeradwyo ar ddeilliannau dysgu penodol.

Er enghraifft:

- beth ddylid ei adrodd a'i gofnodi, pryd ddylai hyn ddigwydd a sut mae'r wybodaeth hon yn cael ei storio (adran 6.4a)
- sut i gofnodi gwybodaeth ysgrifenedig yn gywir, yn eglur, yn berthnasol a chyda lefel briodol o fanylder (adran 6.4a).

Rhaglen sefydlu neu gyfnod prawf y sefydliad

Dangos

Gellid cynllunio rhaglen sefydlu'r sefydliad mewn ffordd a fydd yn sicrhau bod y gweithiwr yn gallu cael y dystiolaeth angenrheidiol i gwblhau'r fframwaith.

Fel rhan o'i raglen sefydlu, mae disgrifiad swydd y gweithiwr yn debygol o gael ei adolygu gydag ef yn rheolaidd, i sicrhau ei fod yn deall ei rôl a'i gyfrifoldebau. Gallai'r gweithgaredd hwn alluogi'r gweithiwr i gofnodi tystiolaeth am:

Er enghraifft, deall:

- pwrpas disgrifiadau swydd a manylebau person ar gyfer diffinio disgwyliadau a chyfyngiadau rolau a chyfrifoldebau (log cynnydd 5.1a).

Er enghraifft, gallu:

- ystyried eich disgrifiad swydd eich hun, beth mae'n disgwyl i chi ei wneud a chyfyngiadau eich swydd (log cynnydd 5.1b).

Astudiaeth achos / senarios ‘beth os’

Dangos

Gan ddefnyddio enghraifft flaenorol o ‘fywyd go iawn’ o’r lleoliad, gellid gofyn i’r gweithiwr ysgrifennu ei deimladau am beth fyddai’n ei wneud neu i esbonio hyn mewn trafodaeth un-i-un â’i gyflogwr, rheolwr neu fentor, a allai helpu i roi mwy o fanylion a/neu ddarparu cyfeiriad.

Gellir defnyddio adroddiadau myfyrio hefyd.

Trafodaeth un-i-un

Dangos

Gallai’r cyflogwr, rheolwr neu fentor gael sgwrs anffurfiol â’r gweithiwr i edrych ar wahanol bynciau.

Er enghraifft:

- pwysigrwydd gwybod dymuniadau a chefnidir unigolyn (y gymysgedd unigryw o brofiad, hanes, diwylliant, credoau, dymuniadau, cysylltiadau teuluol, rhwydweithiau anffurfiol a chymuned yr unigolyn (adran 1.3a)
- pwysigrwydd gwybod dymuniadau a chefnidir plentyn neu berson ifanc (y gymysgedd unigryw o brofiad, hanes, diwylliant, credoau, dymuniadau, cysylltiadau teuluol, rhwydweithiau anffurfiol a chymuned plentyn neu berson ifanc (adran 2.3a)
- beth yw’r Codau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol, i bwy mae’r rhain yn berthnasol a sut y gellir eu defnyddio (adrannau 1.1 a 2.1).

Gellid defnyddio astudiaethau achos neu senarios fel sail i drafodaeth un-i-un. Gellid defnyddio trafodaeth un-i-un hefyd i ddilyn unrhyw arsylwadau.

Cwestiynau a osodir ymlaen llaw

Dangos

Gellid defnyddio cwestiynau a osodir ymlaen llaw i helpu gyda thrafodaeth un-i-un a goruchwyliaeth gyda'r rheolwr neu'r cyflogwr, neu gall y gweithiwr eu defnyddio i gynorthwyo gyda gweithlyfr y fframwaith. Gall y cwestiynau a osodir ymlaen llaw helpu i sicrhau bod tystiolaeth yn ymwneud yn benodol â'ch lleoliad.

Enghreifftiau o gwestiynau a osodir ymlaen llaw

- Disgrifiwch ein gwerthoedd a'n hethos a sut maent yn ymwneud â gweithio gydag unigolion / plant a phobl ifanc.
- Beth yw ystyr y term 'llesiant', a pham mae'n bwysig?
- Pam ei bod hi'n bwysig arsylwi, monitro a chofnodi iechyd a llesiant unigolion sy'n cael eu heffeithio gan gyflyrau iechyd penodol?
- Sut gall yr amgylchedd gynorthwyo i gynnwys pob plentyn a pherson ifanc?

Hyfforddiant

Dangos

Gellir defnyddio hyfforddiant, mewnol ac allanol, i ymdrin ag amrywiaeth eang o ddeilliannau dysgu, yn dibynnu ar natur y wybodaeth a drafodir.

Er enghraifft:

- gellir defnyddio [Grŵp A diogelu](#) fel y sail ar gyfer llawer o'r deilliannau dysgu yn adran 6
- gellir defnyddio [gwybodaeth, dealltwriaeth a chymhwysiad cadarn o atal a rheoli heintiau \(lefel 02\)](#) fel y sail ar gyfer adran 7.6
- gellid mapio unrhyw hyfforddiant sefydlu cymuned iechyd a gofal cymdeithasol ar y cyd.